

Polisi Gwirio Ceisiadau

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu derbyn ar sail arferion derbyn teg ac ni chânt eu derbyn i'r Brifysgol ar sail gwybodaeth anwir, anghywir neu gamarweiniol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae Rheoliadau'r Senedd yn datgan y gall yr Is-Ganghellor (neu ei ddirprwy) ddiddymu cynigion mynediad a wneir ar sail ceisiadau sy'n cynnwys gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, drwy ymgynghori â Phennaeth yr Ysgol briodol neu Benaethiaid yr Ysgolion priodol.
- 1.2 Os oes gan staff y Brifysgol sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr achos i gredu bod y wybodaeth a roddir mewn cais yn anwir, yn anghywir neu'n gamarweiniol, bydd y Brifysgol yn ceisio dilysu'r wybodaeth a roddwyd, naill ai gyda'r ymgeisydd neu unrhyw unigolyn neu sefydliad arall sy'n gallu tystio i gywirdeb a/neu ddilysrwydd y wybodaeth a roddwyd.
- 1.3 Os bydd y Brifysgol yn fodlon – yn dilyn ymchwiliad i'r cais – bod y wybodaeth a roddwyd gan ymgeisydd yn anwir, yn gamarweiniol neu'n anghywir, bydd yn cymryd y camau canlynol:
 - i) gwrthod y cais, pan fydd y penderfyniad ynghylch derbyn heb ei wneud;
 - ii) cyfeirio'r cais at yr Is-Ganghellor gydag argymhelliad bod cynnig o le'n cael ei dynnu'n ôl, pan fod lle eisoes wedi'i gynnig yn ddiamod.
- 1.4 Os oes gan y Brifysgol reswm dros gredu bod myfyriwr cofrestredig wedi cael ei le ar sail gwybodaeth anwir, anghywir neu gamarweiniol, caiff achos y myfyriwr ei ymchwilio a'i glywed drwy gyfrwng y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr.
- 1.5 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â:
 - [Rheoliadau Academaidd Prifysgol Caerdydd](#)
 - [Polisiau Derbyn Prifysgol Caerdydd gan gynnwys gofynion iaith Saesneg](#)
 - [Fframwaith Credyd ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch.](#)

2. Rôl a Chyfrifoldebau'r Ymgeisydd

- 2.1 Caiff rôl a chyfrifoldebau'r ymgeisydd eu diffinio fel a ganlyn:
 - 2.1.1. darparu gwybodaeth gywir ar bob cam o'r broses dderbyn er mwyn helpu'r Brifysgol i ddod i benderfyniad;
 - 2.1.2. ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau am wybodaeth sydd ei hangen i helpu'r Brifysgol wrth ddod i benderfyniad; a

2.1.3. sicrhau bod y Brifysgol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'w amgylchiadau personol sy'n berthnasol i gais y myfyriwr.

3. Diogelu Data

- 3.1 Un o amodau derbyn lle ym Mhrifysgol Caerdydd yw bod yr ymgeisydd yn cydsynio i wybodaeth bersonol – wedi'i chaffael gan y Brifysgol mewn cysylltiad â'r broses dderbyn – gael ei chadw am gyfnod penodol. Wrth wneud hynny, mae'r ymgeisydd yn derbyn y gall wybodaeth o'r fath gael ei defnyddio a'i rhannu gydag UCAS neu gyrff perthnasol eraill at ddibenion gwireddu hunaniaeth, cymwysterau neu eirda'r ymgeisydd.
- 3.2 Lle bo'n ddilys ac yn angenrheidiol, gallai'r Brifysgol brosesu data personol ymgeisydd heb ei gydsyniad, er enghraifft drwy rannu wybodaeth ag asiantaethau eraill yn y Deyrnas Unedig sydd â dyletswyddau sy'n ymwneud ag atal a chanfod troseddau, dal ac erlyn troseddwy, casglu trethi neu dollau, neu warchod diogelwch cenedlaethol. Gallai hynny gynnwys Arolygwyr Budd-daliadau neu Arolygwyr Trethi, yr Heddlu, Cyfarwyddiaeth Mewnffudo a Chenedligrwydd y Swyddfa Gartref, a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad.

4. Hawl i Apelio

- 4.1 Nid oes hawl i apelio, ond os bydd cais wedi'i wrthod neu gynnig o le wedi'i ddiddymu o fewn cwmpas y polisi hwn, a bod yr ymgeisydd yn gallu cyflwyno wybodaeth ychwanegol neu ddogfennaeth wreiddiol sy'n dilysu'r rhan o'i gais y mae cwestiynau yn ei gylch, bydd y Brifysgol yn adfer y cais yn amodol ar gymeradwyaeth yr Is-ganghellor neu'r enwebai, wrth ymgynghori â Phennaeth yr Ysgol berthnasol.

5. Manylion cyswllt

Mae rhagor o wybodaeth am y weithdrefn gefnogi ar gyfer y polisi hwn ar gael gan y:

Tîm Derbyn Myfyrwyr
Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0DE
Admissions@caerdydd.ac.uk
+44 (0)29 20879999